31/07/2020

Elin Lenny
Cyswllt Contact
Ffôn Phone 03305 880506

**Erthygl i'r Wasg** **Press Article**

# Yr Eisteddfod ar S4C - beth sydd ‘mlaen â phryd?

Mae wythnos gyntaf mis Awst yn un brysur i Gymry benbaladr bob blwyddyn ac roedd mis Awst 2020 yn addo bod yn flwyddyn fawr i Dregaron. Ond gyda digwyddiadau lu eisoes wedi’u canslo eleni, bu’r siom na allai’r Eisteddfod Genedlaethol ymweld â Thregaron i’w deimlo trwy Gymru gyfan.

Mae S4C yn falch felly o gynnig amserlen gyffrous llawn adloniant amrywiol i lenwi’r bwlch yn ein bywydau.

“Y bwriad, ar y cyd â’r Eisteddfod, yw cynnig cynnwys i unrhyw Eisteddfodwr sy’n teimlo’r golled o beidio gallu ymweld â’r maes eleni. Bydd cymysgedd o raglenni newydd â ffefrynnau o’r archif i sicrhau bod rhywbeth i bawb gael blas a thamaid o’r ‘Steddfod waeth beth sy’n mynd â’ch bryd” meddai Elen Rhys, Comisiynydd Adloniant S4C.

“Bob nos, bydd cynnwys newydd sy’n mynd â ni o’r Babell Lên i Maes B, y gorau o’r Pafiliwn i straeon y bobol. Beth bynnag fo’r ‘Steddfod i chi, mi gewch rhyw ddôs ohoni ar S4C.

“I goroni’r holl beth, ar nos Sadwrn 7 Awst, bydd **Sioe yr Eisteddfod Goll** - dathliad aml-genre sy’n dathlu’r gorau o’r Ŵyl. Efallai na fydd Pafiliwn a Bar Gwyrdd ond mae yno wledd a sedd yn eich disgwyl ar nos Sadwrn ola’r Ŵyl am gig orau’r flwyddyn. Daw sêr ein cenedl ynghyd i ddathlu, i ddiddanu ac i ddiolch mewn blwyddyn digynsail gyda phob perfformiad yn cyfleu ysbryd y cyfnod rhyfeddol hwn.”

Meddai’r cerddor Robat Arwyn, “Braf eithriadol yw gweld cerddorion a chyfansoddwyr yn dod ynghyd i greu rhywbeth sbeshial wedi cyfnod mor llwm i'r celfyddydau, a dwi'n edrych ymlaen yn arw i glywed Syr Bryn Terfel, Mared Williams ac Elain Llwyd yn perfformio rhai o 'nghaneuon i unwaith eto!”.

Hefyd yn perfformio y bydd Al Lewis, “Mae’r ffaith bod ni methu dod at ein gilydd fel cenedl ‘leni wedi bod yn siom enfawr i bawb dwi’n siwr, ond gyda 2021 ar y gorwel ma’r cyfle i wneud y cyngerdd yma yn gyfle gwych i ddathlu a diddanu. Yn bersonol, mae'n gyfle i ail-gysylltu unwaith eto efo cynulleidfa frwdfrydig a chynnes yr Eisteddfod a fydd yn gwylio o adre tro ma. Tan flwyddyn nesa….!”.

Cyn hynny wrth gwrs, bydd wythnos lawn dop o adloniant. I ddathlu carreg filltir hynod bwysig, ar y nos Lun, bydd y bardd Ifor ap Glyn yn hel atgofion am hanes

lliwgar y Babell Lên yn y rhaglen **Canrif o'r Babell Lên.** Yna, ar y nos Fawrth Tudur Owen fydd yn rhannu ei brofiadau ef o'r Eisteddfod yn **Tudur Owen ar ei Orsedd**.

Bydd noson lawn o gerddoriaeth nos Fercher, yn dechrau gyda **Lleisiau'r Eisteddfod gyda Bryn Terfel.** Bydd Syr Bryn yn edrych yn ôl ar gystadlaethau canu unigol fel Gwobr Goffa Osborne Roberts, Gwobr Goffa David Ellis (Y Rhuban Glas) ac ysgoloriaeth W Towyn Roberts wrth rannu ei brofiad ef o ennill.

Yna, amser i griw Maes B godi llais wrth i'r bandiau ddylai fod wedi perfformio yn fyw gael gwneud sŵn ar **Maes B o Bell**. Yna, am 10.30, bydd pennod arbennig o Ochr 1 fydd yn gyfle i ffans Yws Gwynedd weld uchafbwyntiau gig Eisteddfod Ynys Môn yn 2017.

Bydd **Clasuron y Sioeau Cerdd** ar y nos Iau yn cynnig cyfle i brofi rhai o sioeau cerdd eiconig yr Eisteddfod ar hyd y degawdau. Bydd yn gyfle i glywed o lygaid y ffynnon y straeon anhygoel y tu ôl i sioeau nostalgic fel Nia Ben Aur.

Yno, ar y nos Wener, Tara Bethan sy'n tywys taith o amgylch y Maes rhithiol gan ddod ag holl uchafbwyntiau'r Ŵyl i'ch cartref.

Meddai Prif Weithredwr yr Eisteddfod, Betsan Moses, "Mae hon wedi bod yn flwyddyn wahanol iawn i ni fel Eisteddfod, fel i bawb arall, ond roedden ni'n benderfynol o sicrhau bod pobl yn gallu cael rhyw fath o brofiad Eisteddfodol, a thrwy weithio gyda phartneriaid fel S4C, ry'n ni wedi llwyddo i wireddu hyn!

"Yn ogystal â'r arlwy ar-sgrin, ry'n ni'n cynnal tua phum cant o weithgareddau eraill ar draws nifer o blatfformau, gan gynnwys ein gwefan, sianel YouTube a'r cyfryngau cymdeithasol. Ac yn wahanol i Eisteddfod 'arferol', bydd modd gwylio a gwrando'n ôl, yn hytrach na charlamu ar draws y Maes o le i le. Felly, gallwch bicio o'r Babell Lên i'r Theatr a draw i'r Lle Celf, heb orfod gadael y soffa!

"Ry'n ni'n ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi ein cefnogi ni hyd yn hyn, a gobeithio y bydd y gynulleidfa'n cael blas ar yr arlwy yn ystod yr wythnos."

**Am fwy o wybodaeth am yr holl raglenni fydd ar S4C yn ystod yr wythnos, ewch i wefan S4C .**

www.s4c.cymru/cy/adloniant/eisteddfod-genedlaethol/

**DIWEDD**

31/07/2020

Elin Lenny
Cyswllt Contact
Ffôn Phone 03305 880506

**Erthygl i'r Wasg** **Press Article**

# The Eisteddfod on S4C – what's on and when

The first week of August is always a busy year for fans of Welsh culture and August 2020 promised to be a big year for Tregaron. But with many big events already cancelled, the disappointment that the National Eisteddfod could not visit Tregaron this year was felt throughout Wales.

S4C is therefore pleased to offer a full and exciting schedule of varied entertainment to fill the gap in our lives.

"The intention is to offer content, in conjunction with the Eisteddfod, to any Eisteddfod goer who is at loss by not being able to visit the Maes this year. New programmes will be mixed with favourites from the archive to make sure there is something for everyone to savour and enjoy no matter what" said Elen Rhys, S4C's Commissioner for Entertainment.

"Each night, new content takes us from the Babell Lên (Literature Tent) to Maes B, to the best of the Pavilion to the people and their stories. Whatever the Eisteddfod means to you, you will get a dose of it on S4C.

"To top it all off, on Saturday 7 August, **Sioe yr Eisteddfod Goll** (the Show of the lost Eisteddfod) will be a multi-genre performance celebrating the best of the festival. There may not be a Pavilion and a Green Bar, but you can take a seat for the best gig of the year on the last Saturday of the festival. Our nation's stars will get together to celebrate, entertain and give thanks with each performance conveying the spirit of this extraordinary time, in what has been an unprecedented year."

Musician Robat Arwyn said, "It's great to see musicians and composers coming together to create something special after such a bleak time for the arts, and I'm really looking forward to hearing Sir Bryn Terfel, Mared Williams and Elain Llwyd performing some of my songs again!".

Also performing will be Al Lewis, "The fact that we can't come together as a nation has been a huge disappointment to everyone I'm sure, but this concert is a great chance to celebrate and entertain. Personally, it is an opportunity to reconnect with the enthusiastic and warm audience of the Eisteddfod again, who will be watching from home this time. Until next year….!".

Before that, of course, there will be a packed week of entertainment. To celebrate a landmark milestone, poet Ifor ap Glyn will recall the colourful history of the Babell Lên

in **Canrif o'r Babell Lên** on Monday evening. On Tuesday evening Tudur Owen will share his experiences of the Eisteddfod in **Tudur Owen ar ei Orsedd**.

There will be an evening full of music on Wednesday night, starting with **Lleisiau'r Eisteddfod gyda Bryn Terfel**. Sir Bryn shares his experience of winning on the Eisteddfod stage as he looks back at the solo singing competitions, such as the Osborne Roberts Memorial Prize, the David Ellis Memorial Prize (Blue Ribbon) and the W Towyn Roberts Scholarship.

Then, time for the Maes B crew to make their voices heard as the bands who should have performed live make a noise on **Maes B o Bell**. At 10.30, there will be a special episode of Ochr 1 which will give Yws Gwynedd fans a chance to see highlights from the Anglesey Eisteddfod gig in 2017.

On Thursday, the **Clasuron y Sioeau Cerdd** will offer the opportunity to experience some of the Eisteddfod's iconic musicals over the decades – a chance to hear incredible first-hand stories behind nostalgic shows like Nia Ben Aur. On Friday night, Tara Bethan leads a tour of the virtual Maes bringing all the highlights of the festival into your home.

Eisteddfod Chief Executive, Betsan Moses, said, "This has been a very different year for us as an Eisteddfod, as for everyone else, but we were determined to make sure people could have some kind of Eisteddfod experience, and by working with partners like S4C, we have achieved this!

"In addition to the on-screen content, we will offer around 500 other activities across a number of platforms, including our website, YouTube channel and social media. And unlike a 'normal' Eisteddfod, it will be possible to watch and listen back, rather than gallop across the Maes from place to place. So you can pop from the Babell Lên to the Theatre and over to the Lle Celf without having to leave the couch!

"We are very grateful to everyone who has supported us so far and hope that the audience will get a taste of the week's output."

For more information on all the programmes that will be on S4C during the Eisteddfod week, visit the [S4C website](http://www.s4c.cymru/en/entertainment/eisteddfod-genedlaethol/).

http://www.s4c.cymru/en/entertainment/eisteddfod-genedlaethol/

**ENDS**